

**Chwaraeon RhCT**  
**Termau ac Amodau ar gyfer Cronfa'r Ysgolion**

1. Wrth gyflwyno cais mae ysgolion yn mynd i gytundeb â Chwaraeon RhCT mewn perthynas â'u prosiect arfaethedig.
2. Mae'n bosibl y bydd cais yn cael ei gefnogi yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol. Os yw cais yn cael ei gefnogi'n rhannol, bydd llythyr cynnig Chwaraeon RhCT yn amlinellu pa elfennau o'r cais sydd wedi'u cymeradwyo yn union.
3. Os yw'r cais yn cael ei gymeradwyo, byddwn ni'n cysylltu ag ysgolion i roi gwybod iddyn nhw bod eu cais yn llwyddiannus.
4. Mae'r arian grant sy'n cael ei gynnig i chi yn y llythyr oddi wrth Chwaraeon RhCT yn cael ei gynnig ar sail y Telerau ac Amodau yma.
5. Os yw'r cais yn cael ei wrthod, bydd ysgolion yn derbyn llythyr gwrthod gan Chwaraeon RhCT gyda rheswm yn egluro pam nad yw'r cais wedi'i gefnogi. Dydy gwrthod cais ddim yn atal ysgolion rhag ymgeisio eto yn y dyfodol.
6. Os bydd eich cais grant yn llwyddiannus, does dim modd i Chwaraeon RhCT ryddhau arian grant ar ffurf arian parod i ysgolion, felly yn lle hynny bydd Chwaraeon RhCT yn prynu'r eitemau / gwasanaethau sydd eu hangen ac yn eu cyflwyno i'r ysgol yn uniongyrchol.
7. Mae'r arian y mae Chwaraeon RhCT yn ei ddosbarthu fel grantiau yn cael ei dderbyn gan Chwaraeon Cymru, sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu'r Loteri Genedlaethol.
8. Rhaid i'r Derbynnnydd:-
  - A. defnyddio'r Arian Grant at y diben sy wedi'i nodi yn y Llythyr Cynnig;
  - B. rhoi adroddiadau ar gynnydd y Prosiect pan fydd Chwaraeon RhCT yn gofyn amdanyn nhw o dro i dro, yn ogystal ag unrhyw adroddiadau o'r fath sy wedi'u nodi yn y Llythyr Cynnig;
  - C. monitro llwyddiant y Prosiect a darparu unrhyw wybodaeth sy'n rhesymol ofynnol i Chwaraeon RhCT i'n bodloni eich bod chi'n ymgymryd â'r Prosiect mewn ffordd addas ac yn unol â thelerau'r Llythyr Cynnig;
  - D. caniatáu i Chwaraeon RhCT gynnal ymweliadau monitro neu werthuso â'r Prosiect a bydd y Derbynnnydd yn cydweithredu'n llawn â Chwaraeon RhCT mewn perthynas â hynny;
  - E. sicrhau bod yr holl ofynion monitro ac adrodd sy'n weddill mewn perthynas â'r Prosiect wedi eu cyflawni cyn cyflwyno unrhyw gais am arian yn y dyfodol mewn perthynas ag unrhyw brosiect arall. Fydd Chwaraeon RhCT ddim yn ystyried cais am grantiau yn y dyfodol os bydd unrhyw ofynion heb eu cwblhau o ran monitro neu adrodd;
9. Yn ystod cyfnod y Prosiect bydd y Derbynnnydd yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a chyfreithiau eraill, gan sicrhau iechyd a diogelwch, hyrwyddo cyfle cyfartal, atal gwahaniaethu o unrhyw fath a sicrhau diogelu plant, pobl ifainc ac oedolion sy'n agored i niwed.